

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Ein Bro

# Y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Adroddiad Blynyddol 2016/17



# 1. Cynnwys

## 1. Contents

Error! Bookmark not defined.

## 2. Cyflwyniad

Error! Bookmark not defined.

## 3. Y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus

Error! Bookmark not defined.

## 4. Monitro'n Perfformiad

8

## 5. Sut rydym yn cydweithio i drechu tlodi

9

## 6. Gweithio mewn partneriaeth i gyflawni ein deilliannau blaenoriaeth

17

## 7. Ein Blaenoriaethau a'n Heriau

29

## 8. Rhagor o Wybodaeth

Error! Bookmark not defined.

## 2. Cyflwyniad


Mae'r adroddiad hwn yn rhoi cipolwg o'r gwaith sy'n mynd rhagddo i sicrhau y cyflawnir Strategaeth Gymunedol Bro Morgannwg 2011-21 a'r Cynllun Cyflawni cysylltiedig ar gyfer 2014-18. Mae'r adroddiad yn adlewyrchu amrywiaeth y gwaith sy'n mynd rhagddo mewn partneriaeth ledled Bro Morgannwg, yn ogystal â rhai o'r heriau o gyflawni'n Strategaeth a Chynllun. Mae'r adroddiad hwn hefyd yn cynnwys manylion am ein cynnydd yn ôl Dangosyddion Craidd y Strategaeth Gymunedol.

Mae'n nodi'r gwaith estynedig partneriaid ar hyn o bryd i gyhoeddi'r Aseiad Lles ym mis Ebrill 2017 a'r gwaith ar hyn o bryd i ddatblygu Cynllun Lles y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

Cafodd y Strategaeth Gymunedol a'r Cynllun Datblygu eu cymeradwyo'n flaenorol gan yr hen Fwrdd Gwasanaethau Lleol (BGLI), ac roeddent yn cael eu cyflawni a'u monitro ganddo. Mae hwn wedi cael ei ddisodli gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (BGC) yn sgil Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r BGC wedi mabwysiadu cynlluniau a strwythurau'r hen sefydliad a bydd yn parhau i gyflawni'r blaenoriaethau sydd wedi'u nodi ynddynt hyd nes ei fod yn cyhoeddi ei Gynllun Lles yn 2018.

Dylid ystyried ein cynnydd yn ystod y flwyddyn, a'r cyflawniadau sy'n cael eu hamlinellu yn yr adroddiad hwn, drwy'r Saith Nod Llesiant Cenedlaethol a'r Bum Ffordd o Weithio yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol.

Bydd y Nodau'r a'r Bum Ffordd o Weithio'n rhannau hollbwysig o waith y BGC yn y dyfodol. Rhaid i'r BGC wneud y cyfraniad mwyaf posibl at y gwaith o gyflawni'r nodau, a bydd yr Aseiad Lles, a'r Cynllun Lles a'i Amcanion, yn sicrhau bod modd i'r BGC wneud hynny. Bydd y Cynllun yn nodi tystiolaeth o'r camau y bydd y BGC yn eu rhoi ar waith i gyflawni'r saith Nod Lles, a sut y bydd y gwaith hwn yn cael ei wneud drwy'r Bum Ffordd o Weithio er mwyn adeiladu ar les ym Mro Morgannwg a'i wella.



### Hirdymor



Pwysigrwydd sicrhau cydbwysedd rhwng anghenion tymor byr a'r angen am ddiogelu'r gallu i ddiwallu anghenion tymor hir hefyd.

### Atal



Sut gall gweithredu i atal problemau rhag digwydd neu waethygu helpu cyrff cyhoeddus i gyflawni eu hamcanion.

### Integreiddio



Ystyried sut gall amcanion llesiant y corff cyhoeddus effeithio ar bob un o'r nodau llesiant, ar bob un o'u hamcanion eraill, neu ar amcanion cyrff cyhoeddus eraill.

### Cydweithio



Gallai cydweithredu ag unrhyw berson arall (neu wahanol adrannau yn y corff ei hun) helpu'r corff i fodloni ei amcanion llesiant.

### Cynnwys



Pwysigrwydd cynnwys pobl sydd â diddordeb mewn cyflawni'r nodau llesiant, a sicrhau bod y bobl hynny'n adlewyrchu amrywiaeth yr ardal maent yn ei gwasanaethu.

Bydd y BGC yn parhau i sicrhau ei bod, ym mhob rhan o'i weithgareddau, yn cyflawni'n unol â'r Egwyddor Datblygu Cynaliadwy ac mae'n **'ceisio sicrhau bod anghenion y presennol yn cael eu diwallu, heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion eu hun.'**

I grynhoi, mae'r adroddiad hwn yn nodi manylion am rai o'r cyflawniadau tuag at flaenoriaethau presennol y BGC, a bydd llawer o'r rhain yn berthnasol o hyd yn y dyfodol i'r BGC a phartneriaethau eraill yn y Fro. Mae cynnydd yn ôl ein dangosyddion craidd hefyd yn cael ei nodi ac mae hynny wedi rhoi tystiolaeth yn gefn i'r Asesiad Lles a'r gwaith o ddatblygu ein hamcanion ar gyfer y Cynllun Lles.

Mae'r adroddiad hwn yn dangos sut mae'r BGC yn parhau i gyflawni gwelliannau ym mhob rhan o Fro Morgannwg wrth droi'n fwrdd partneriaeth mwy effeithiol sydd mewn safle da i ddatblygu ei gyfrifoldebau'n unol â Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r Asesiad Lles a'r Cynllun Lles yn gyfle gwirioneddol i newid y ffordd y mae ein sefydliadau'n cydweithio ac yn y ffordd y mae gwasanaethau'n cael eu cyflawni yn y Fro.

### 3. Y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus

#### Diben y BGC

Cafodd Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Bro Morgannwg 'Ein Bro' ei sefydlu drwy Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae'r Bwrdd yn galluogi ystod o bartneriaid i weithio ar y cyd i ymgorffori'r Saith Nod Llesiant i Gymru yn y ddeddf, ac i weithio tuag atynt. Drwy ei waith, bydd y BGC yn gwella llesiant economaidd, amgylcheddol, diwylliannol a chymdeithasol Bro Morgannwg.

#### Aelodau'r BGC

Dyma'r partneriaid sy'n ffurfio BGC y Fro, "Ein Bro":

- Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
- Gwasanaeth Tân ac Achub De Cymru
- Cyfoeth Naturiol Cymru
- Cyngor Bro Morgannwg
- Coleg Caerdydd a'r Fro
- Gwasanaethau Gwirfoddol Morgannwg
- Prif Gwnstabl Heddlu De Cymru
- Ymddiriedolaeth Ambiwlans Cymru
- Llywodraeth Cymru
- Y Gwasanaeth Prawf Cenedlaethol
- Cwmni Adsefydlu Cymunedol Cymru
- Comisiynydd Heddlu a Throsedd De Cymru
- Cynrychiolydd Cynghorau Trefi a Chymunedau Bro Morgannwg

Mae Ein Bro wedi mabwysiadu'r cynlluniau, y strategaethau'r strwythur is-grwpiau a gafodd eu datblygu gan y Bwrdd Gwasanaethau Lleol. Mae'r rhain yn cynnwys yn bennaf Strategaeth Gymunedol 2011-2021 a Chynllun Cyflawni'r Strategaeth Gymunedol 2014-2018.

#### Ein Blaenoriaethau Presennol

. Yn 2013, cafodd yr asesiad ei adolygu ac yn sgil hynny cafodd cynllun cyflawni pedair blynedd ei ddatblygu ar drechu tlodi. Yn yr adroddiad hwn ceir amlinelliad o gyflawniadau a heriau o ran cyflawni ein deg deilliant blaenoriaeth ac o ran trechu tlodi yn y Fro.

Dyma'r 10 Deilliant Blaenoriaeth sydd wedi'u nodi yn Strategaeth Gymunedol 2011-21:

1. Mae pobl o bob oed yn y fro yn **cymryd rhan** yn ymarferol mewn bywyd yn y Fro ac mae ganddyn nhw'r gallu a'r hyder i adnabod eu hanghenion eu hunain ac anghenion eu cymunedau.
2. Mae anghenion amrywiol pobl yn cael eu diwallu drwy ddarparu gwasanaethau a gwybodaeth hygyrch **ar gyfer cwsmeriaid**.
3. Mae trigolion a sefydliadau yn y Fro yn parchu'r **amgylchedd** lleol ac maen nhw'n cydweithio i oresgyn yr her o newid yn yr hinsawdd.
4. Mae **pobl hŷn** yn cael eu gwerthfawrogi, ac mae grym wedi'i roi yn eu dwylo o ran parhau i fod yn annibynnol ac yn iach ac i ymarfer corff. Mae ganddyn nhw gyfle cyfartal ac maen nhw'n cael gwasanaethau o ansawdd uchel i ddiwallu eu hanghenion amrywiol.
5. Mae **plant a phobl ifanc** yn y Fro yn cael gwybodaeth a chymorth da i ddefnyddio ystod eang o wasanaethau o safon sy'n eu galluogi i fanteisio cymaint â phosibl ar y cyfleoedd bywyd yn eu cymunedau a'r tu hwnt.
6. Mae modd i bobl o bob oed gymryd rhan mewn **cyfleoedd dysgu** sy'n cael eu cydlynu ac mae ganddyn nhw'r sgiliau sydd eu hangen i wireddu eu potensial, sydd yn ei dro'n helpu i oresgyn rhwystrau rhag cyflogaeth.
7. Mae'r achosion sydd wrth wraidd amddifadedd yn cael eu datrys ac mae'r gwaith o adfywio'r Fro yn parhau, mae cyfleoedd i unigolion a busnesau'n cael eu datblygu ac mae ansawdd yr amgylchedd adeiledig a naturiol yn cael ei ddiogelu a'i wella.
8. Mae'r Fro **yn ychwanegu at botensial ei safle yn y rhanbarth cymaint â phosibl** drwy weithio gyda'i chymdogion er budd pobl a busnesau lleol, ac er mwyn denu ymwelwyr, trigolion a buddsoddiad.
9. Mae trigolion ac ymwelwyr **yn ddiogel** ac maen nhw'n teimlo'n ddiogel a chydabyddir bod y Fro yn ardal droseddu isel.
10. Mae **anghydraddoldeb iechyd** yn cael ei leihau ac mae modd i drigolion gael y gwasanaethau, gwybodaeth a'r cyngor sydd eu hangen i wella eu lles ac ansawdd eu bywydau.

Mae Cynllun Cyflawni'r Strategaeth Gymunedol yn dilyn strwythur y tair ffrwd gwaith yng Nghynllun Trechu Tlodi Llywodraeth Cymru:

- **Atal tlodi** – cyd-drefnu rhaglenni Teuluoedd yn Gyntaf, Cymunedau yn Gyntaf a Dechrau'n Deg er mwyn helpu plant, teuluoedd a chymunedau i ddianc rhag tlodi.
- **Cynorthwyo pobl i mewn i waith** – Gwella cyfleoedd i gael gwaith a datblygu sgiliau er mwyn gwella mynediad at swyddi a llwybrau allan o dlodi a thuag at ansawdd bywyd gwell.
- **Lliniaru tlodi** – Gwella'r cyngor a chymorth sydd ar gael i drigolion y Fro sy'n wynebu anawsterau ariannol ac anawsterau o ran tai, a'u galluogi i gynnal safon bywyd addas ac i ddod o hyd i lwybr allan o dlodi.

## Cyflawni'n blaenoriaethau

Galluogi'r hen Fwrdd Gwasanaethau Lleol i gyflawni'r blaenoriaethau y cytunodd arnyn nhw. Sefydlwyd nifer o fyrddau a Gweithgorau ac mae'r rhain wedi parhau dan y BGC. Dyma'r grwpiau hyn:

- Bwrdd Plant a Phobl Ifanc; y brif bartneriaeth dros blant a phobl ifanc sy'n cyflawni Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn drwy saith Nod Craidd Llywodraeth Cymru.
- Partneriaeth Bro Ddiogelach; y bartneriaeth sy'n gyfrifol am sicrhau bod troseddu ac anhrefn yn y Fro'n isel a bod trigolion ac ymwelwyr yn teimlo'n ddiogel ym Mro Morgannwg.
- Bwrdd Partneriaeth iechyd a gofal cymdeithasol Integredig Caerdydd a'r Fro; y corff sy'n sicrhau bod gwasanaethau ac adnoddau'n cael eu defnyddio yn y ffordd fwyaf effeithiol ac effeithlon er mwyn gwella deilliannau iechyd a gofal cymdeithasol trigolion Caerdydd a Bro Morgannwg.
- Y Grŵp Alinio Tlodi; y corff sy'n dod â Theuluoedd yn Gyntaf, Dechrau'n Deg, Cymunedau yn Gyntaf a Chefnogi Pobl ynghyd er mwyn eu cyd-drefnu'n well.
- Y Bwrdd Gwella Cyfleoedd; y corff sy'n canolbwyntio ar y gwaith o hyrwyddo cyfleoedd cyflogaeth a datblygu sgiliau ymhlith trigolion y Fro.
- Y Grŵp Cynhwysiant Ariannol; corff sy'n dod ag ystod o bartneriaid allweddol ynghyd i sicrhau dull sydd wedi'i gydlynu o fynd i'r afael ag achosion ac effeithiau allgau ariannol.
- Y Grŵp gwybodaeth busnes; corff sy'n dod â dadansoddwyr data a swyddogion perthnasol eraill o sefydliadau partner eraill ynghyd i sicrhau bod gan y BGC sail gadarn o dystiolaeth pan fydd yn pennu ei flaenoriaethau.

Yn ogystal â'r byrddau a'r is-grwpiau hyn, mae gweithgarwch partneriaeth yn cael ei wneud drwy Gymunedau yn Gyntaf a Chymunedau Gwledig Creadigol; mae'r gwaith hwn hefyd yn cael ei adrodd i'r BGC ac mae'n cyfrannu at y gwaith o gyflawni ei flaenoriaethau. Ar ôl i'r Cynllun Lles ac Amcanion Lles y BGC gael eu cyhoeddi, bydd angen ymgymryd ag adolygiad o'r grwpiau a'r mecanweithiau sy'n cael eu defnyddio i gyflawni ein blaenoriaethau. O ganlyniad i'r adolygiad hwn, efallai y bydd y byrddau a'r gweithgorau o dan y BGC yn cael eu had-drefnu er mwyn cyflawni'r amcanion yn ein cynllun newydd yn well.

## 4. Monitro'n Perfformiad

Yn ogystal ag Adroddiad Blynyddol y BGC, mae adroddiadau o gynnydd o ran Cynllun Cyflawni'r Strategaeth Gymunedol, a set o ddangosyddion craidd sy'n seiliedig ar ddeg blaenoriaeth y Strategaeth Gymunedol, yn rhan o drefniadau rheoli perfformiad y BGC. Mae gwybodaeth o ddiddordeb mewn perthynas â'r dangosyddion craidd wedi'i nodi yn yr adrannau cyflawni o'r adroddiad hwn ac mae manylion llawn mewn perthynas â phob dangosydd wedi'u nodi yn Atodiad 1.

Cafodd gwybodaeth mewn perthynas â phob un o ddangosyddion craidd y BGC ei chynnwys yn yr Asesiad Lles ac mae cynnydd o ran y dangosyddion wedi bod yn gadarnhaol gan mwyaf yn y blynyddoedd diwethaf. Mae lefelau NEET yn parhau i ostwng, mae cyfraddau ailgylchu'n cynyddu ac mae nifer y twristiaid sy'n ymweld â'r Fro yn parhau i dyfu. Mae'r dangosyddion yn dangos cyfraniad helaeth gwaith gwirfoddoli at Fro Morgannwg a chynnydd da mewn nifer o ddangosyddion cysylltiedig ag iechyd. Er enghraifft, mae gan y Fro un o'r cyfraddau isaf o oedolion sy'n ysmegu yng Nghymru. Er hynny, mae modd nodi rhai meysydd pryder, ac mae cyfraddau troseddu cyffredinol 2016/17 wedi cynyddu yn y Fro gan ddilyn y tueddiad cenedlaethol. At hynny, er gwaethaf cyflawniad da mewn amrywiaeth o ddangosyddion iechyd ar lefel awdurdod lleol, wrth ystyried data ar lefel is, mae'r bwlch rhwng disgwyliadau oes ein ardaloedd mwyaf a lleiaf difreintiedig yn parhau i ehangu. Yn yr Asesiad Lles, cafodd ei nodi bod hynny'n un o'r canfyddiadau allweddol.

Mae'n bwysig nodi nad oes modd, oherwydd natur y dangosyddion hyn, i Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Bro Morgannwg ar ei ben ei hun fod yn gyfrifol am ddylanwadu tueddiadau. Yn hytrach, bydd gwaith gan ei bartneriaid ledled Bro Morgannwg a thrwy bartneriaethau allweddol y BGC yn cyfrannu at wella perfformiad yng nghyd-destun y dangosyddion hyn, ac at gyflawni'r deg deilliant blaenoriaeth yn y Strategaeth Gymunedol.

Wrth i gynnydd yn y Cynllun Lles a'i Bedwar Deilliant Lles barhau, mae'n debygol y caiff set arall o ddangosyddion ategol eu datblygu. Bydd y dangosyddion newydd, gyda'r dangosyddion lles cenedlaethol, yn ategu ein dull presennol a bydd yn sicrhau bod cysylltiadau'n cael eu gwneud â'r wybodaeth fanwl sy'n cael ei nodi yn ein Hasesiad Lles.



## 5. Sut rydym yn cydweithio i drechu tlodi

### Cyflwyniad

Mae'r adran hon yn amlinellu cyflawniadau o ran Cynllun Cyflawni'r Strategaeth Gymunedol a gyhoeddwyd yn 2014 a'r gwaith i ddatblygu'r ffrydiau gwaith canlynol.

- **Atal tlodi** – Cyd-drefnu rhaglenni Teuluoedd yn Gyntaf, Cymunedau yn Gyntaf a Dechrau'n Deg er mwyn helpu plant, teuluoedd a chymunedau i ddianc rhag tlodi
- **Cynorthwyo pobl i mewn i waith** – Gwella cyfleoedd i gael gwaith a datblygu sgiliau er mwyn gwella mynediad at swyddi a llwybrau allan o dlodi a thuag at ansawdd bywyd gwell
- **Lliniaru tlodi** – Gwella'r cyngor a chymorth sydd ar gael i drigolion y Fro sy'n wynebu anawsterau ariannol ac anawsterau o ran tai, a'u galluogi i gynnal safon bywyd addas ac i ddod o hyd i lwybr allan o dlodi.

Mae ein partneriaid wedi ymgymryd ag ystod o waith yn ystod y flwyddyn, o fynd i'r afael ag anghydraddoldeb o ran iechyd i helpu pobl i mewn i waith, a phan fo'n berthnasol, rydym wedi cynnwys gwybod o'n dangosyddion craidd.

### Cynnydd

**Rhaglen Gyfoethogi Gwyliau Ysgol (RhCGY)** - Cafodd Rhaglen Cyfoethogi Gwyliau Ysgol beilot ei chynnal ym Mro Morgannwg yn ystod gwyliau haf yr ysgol yn 2016. Cafodd y project ei gynnal yn Ysgol Gyfun y Barri ac Ysgol Gyfun Bryn Hafren. Drwy gydweithio â Chymunedau yn Gyntaf y Barri, targedodd plant rhwng 11 a 12 oed rhwng blynnyddoedd 6 a 7. Cafodd cyfanswm o 93 o blant fudd o'r rhaglen, ac yn rhan ohoni cafodd y sawl a gymerodd ran bryd iach o fwyd a wnaethon nhw ystod o weithgareddau corfforaethol, ar adeg pan fo rhieni'n ei chael yn anodd darparu pryd o fwyd ychwanegol yn ystod y gwyliau. Mae'r Rhaglen wedi cael cyllid i barhau a bydd yn cael ei rhoi ar waith yn ystod gwyliau'r ysgol yr haf hwn. Bydd dwy ysgol gynradd yn y Barri'n rhan ohoni. Ar ôl i'r BGC gael gwybod am lwyddiant y project y llynedd, bydd nifer o bartneriaid yn gweithio yn y ddwy ysgol gynradd yn y Barri yn rhan ohono.




**Bwyta'n Iach** – Yn dilyn yr ymrwymiad i ddatblygu siarter fwyd ar gyfer Bro Morgannwg, cynhaliwyd project Sensemaker, sydd wedi canolbwyntio'n arbennig ar ardal y Barri ac sydd wedi cynnwys gwaith i gasglu data ansoddol ar yr amgylchedd bwyd ym Mro Morgannwg. Ar sail canfyddiadau'r project, mae Grŵp Llywio Bwyd y Fro wedi cael ei sefydlu. Bydd y grŵp yn datblygu Cynllun Gweithredu, bydd yn gweithio i ddiweddarau mapiau asedau bwyd a bydd yn gweithio tuag at gyflwyno cais dinasoedd bwyd cynaliadwy.



### Dangosydd Craidd: Disgwyliadau Oes

#### Comparison of life expectancy and healthy life expectancy at birth, with Slope Index of Inequality (SII), Vale of Glamorgan, 2005-09 and 2010-14

Produced by Public Health Wales Observatory, using PHM & MYE (ONS), WHS & WIMD 2014 (WG)



*Mae'r ffactorau sy'n dylanwadu ar ein hiechyd a'n lles yn amrywiol iawn ac mae modd eu dangos orau drwy fodel Dahlgren a Whitehead sy'n amlygu perthynas achosol rhwng ffactorau ffordd o fyw unigolyn, ei rwydweithiau cymdeithasol, a'i amodau gweithio a byw, a ffactorau economaidd, gwleidyddol ac amgylcheddol yn fyd-eang, yn genedlaethol ac yn lleol. Mae'r ffactorau amrywiol a gynhwysir yn gallu dylanwadu ar ein hiechyd a'n lles mewn modd cadarnhaol neu negyddol, ac yn y pen draw gallan nhw effeithio ar ein disgwyliad oes.*

*Mae disgwyliadau oes cyffredinol trigolion Bro Morgannwg yn uwch na'r ffigur ar gyfartaledd i ddynion (79.6) a menywod (83.4). Er y bu gwahaniaethau rhwng y rhywiau, rhwng ardaloedd y bu'r amrywiadau mwyaf. Hyn yw'r achos yn enwedig o ystyried disgwyliadau oes iach, sef y nifer o flynyddoedd ar gyfartaledd y mae disgwyl i unigolyn fyw gydag iechyd da. Mae dynion yn yr ardaloedd lleiaf difreintiedig yn y Fro yn gallu disgwyl byw 20.9 o flynyddoedd yn fwy gydag iechyd da na'r rheiny sy'n byw yn yr Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is mwyaf difreintiedig. Mae'r gwahaniaethau rhwng disgwyliadau oes iach rhwng ardaloedd o'r Fro yn fwy byth o ystyried menywod. Mae'r sawl yn yr Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is lleiaf difreintiedig yn byw'n iach am 23.4 o flynyddoedd yn fwy na'r sawl yn yr Ardaloedd Cynnyrch Ehangach Haen Is mwyaf difreintiedig. Y bwlch anghydraddoldeb rhwng disgwyliadau oes i fenywod yn y cyfnod 2010-14 fu'r mwyaf ledled Cymru ac mae hynny'n achos pryder. Mae ystod eang o ffactorau sy'n dylanwadu ar ein hiechyd a'n lles a bydd y rhain yn y pen draw'n effeithio ar nifer y blynyddoedd y gallwn ddisgwyl byw gydag iechyd da. Mae cynyddu disgwyliadau oes iach a lleihau anghydraddoldeb iechyd felly'n allweddol o ran cyflawni buddion iechyd i'r unigolyn, a hefyd ystod eang o fuddion eraill sy'n gwella lles.*

**Adnabod cyfleoedd i gydweithio** – Mae gwaith cydgysylltiedig yn parhau rhwng rhaglenni Teuluoedd yn Gyntaf, Dechrau'n Deg, Cefnogi Pobl a Chymunedau yn Gyntaf. Mae darpariaethau hyfforddiant ar y cyd wedi cael ei gynnal yn rhan o bob rhan o'r rhaglenni gan gynnwys hyfforddiant ar ymlyniad rhiant, datblygiad plentyn a'r Tîm o Amgylch y Teulu. Mae gweithgareddau ar y cyd eraill yn cynnwys swydd arbenigwr Iechyd Meddwl, cymorth cysylltiedig â thai a darpariaeth o gyngor ar fagu plant. Er mwn datblygu dealltwriaeth well aelodau'r bwrdd, adnabod rhagor o gyfleoedd i weithio ar y cyd a'r goblygiadau i'r newidiadau i Gymunedau yn Gyntaf, mae gweithdy wedi'i gynnal gan gynnwys pob un o'r pedwar bwrdd rhaglen. Roedd adborth ar y digwyddiad yn gadarnhaol ac er nad oedd unrhyw gynlluniau i gyfuno'r byrddau, mae rhagor o ddigwyddiadau yn cael eu cynllunio i ddod â'r aelodau o'r bwrdd ynghyd a sicrhau gwell dealltwriaeth a chymau cyd-drefnu rhwng y rhaglenni.

**Adnabod a lleihau achosion o ddyblygu** - er mwyn hwyluso rhagor o waith ar y cyd a lleihau achosion o ddyblygu, gweithio mewn partneriaeth â Thai Taf, mae tîm Cefnogi Pobl yn arwaith ar broiect i fapio darpariaeth gwasanaethau'r rhaglenni ac i adnabod lle y mae cymorth yn cael ei ddyblygu ym mhob un o'r rhaglenni trechu tloidi.



**Cyngor ar Gredyd Cynhwysol** – Mae Cyngor Bro Morgannwg yn parhau i weithio gyda gwasanaethau cyngor ariannol Cyngor Dinasyddion Caerdydd a'r Fro er mwyn darparu gwasanaethau cynghori penodol ar drefnu cyllideb, gwneud y mwyaf o incwm a dyled ar gyfer y sawl sy'n derbyn Credyd Cynhwysol.




**Ymwybyddiaeth o Ddiwygio Lles** – Bu Cyngor Dinasyddion Caerdydd a'r Fo yn cynnal digwyddiad Diwygio Lles i godi ymwybyddiaeth o'r effaith y gallai'r diwygiadau Lles gael ar unigolion ledled Caerdydd a Bro Morgannwg. Mae hyfforddiant hefyd wedi cael ei gyflwyno i sefydliadau ledled y Fro ar fudd-daliadau Lles cyffredinol, Taliadau Annibyniaeth Bersonol, Credyd Cynhwysol a Rheoli Arian yn rhan o waith gyda chleientiaid.

**Cymunedau yn Gyntaf y Barri** – Ar ôl penderfyniad Llywodraeth Cymru i ddod â rhaglen Cymunedau yn Gyntaf i ben yn raddol, bydd Cymunedau yn Gyntaf y Barri yn parhau mewn ffurf lai tan 31 Mawrth 2018. Bydd y 12 mis nesaf o'r rhaglen yn gyfnod pontio i'r project, ond bydd rhaglen Cymunedau dros Waith, sy'n cael cyllid Cymdeithasol Ewropeaidd, yn parhau i fynd i'r afael ag anghenion o ran ffyniant yn ardal y clwstwr. Mae tîm Ffyniant Cymunedau yn Gyntaf wedi gweithio, a bydd yn parhau i weithio'n agos gyda thîm Cymunedau dros Waith i roi cymorth i gyfranogwyr i gael swyddi neu hyfforddiant cysylltiedig â swyddi.



**Addysg Oedolion** – Yn unol â'n hymrwymiad i leihau tloedi ac allgau cymdeithasol, rydym yn parhau i annog dysgwyr blaenoriaeth i fanteisio ar gyfleoedd dysgu i oedolion. Cynyddodd y nifer a gofrestrodd o 736 i 910 o ddysgwyr o'i gymharu â'r un cyfnod y llynedd.

**Dangosydd Craidd: y ganran o ddisgyblion sy'n gadael blwyddyn 11 y gwyddys nad ydyn nhw mewn addysg, cyflogaeth na hyfforddiant**



Mae lleihau nifer y bobl ifanc nad ydynt mewn Addysg, Cyflogaeth na Hyfforddiant (NEET) yn flaenoriaeth o hyd i bartneriaid. Nododd yr Asesiad Lles fod Bro Morgannwg wedi perfformio'n dda ar gyfer pobl ifanc NEET ac mae canran y bobl hynny'n parhau i fod yn is na'r ffigur ledled Cymru ar gyfartaledd, er bod gan Gymru, ar lefel genedlaethol, nifer gymharol isel sy'n parhau ar ôl troi'n 16 oed o'i chymharu â gwledydd eraill. Mae'r ganran o ddisgyblion blwyddyn 11 sy'n troi'n bobl NEET yn parhau i ostwng o flwyddyn i flwyddyn ym Mro Morgannwg ac mae'n parhau i fod yn is na'r ffigur ledled Cymru ar gyfartaledd ar gyfer 2016-17. Mae'r Fro wedi perfformio'n dda ym mhob grŵp oedran ar gyfer 2016/17 ac mae 1.3% o ddisgyblion sy'n gadael blwyddyn 12, a 2.8% sy'n gadael blwyddyn 13, yn troi'n bobl NEET yn y Fro. Mae'r ddwy ffigur yn is o'u cymharu â ffigurau'r flwyddyn flaenorol. Mae'r Fframwaith Ymgysylltu a Datblygu Ieuentid wedi cael ei roi ar waith ac mae darpariaeth wedi cael ei chydlynu drwy ddefnyddio gwybodaeth o'r offeryn adnabod yn gynnar. O ganlyniad i hynny, mae ymyriadau wedi cael eu targedi'n llwyddiannus ac mae pobl ifanc 16-18 oed wedi trosglwyddo i addysg, cyflogaeth neu hyfforddiant yn llwyddiannus. Mae gwaith yn parhau gyda phartneriaid fel Cymunedau yn Gyntaf sydd â gweithwyr NEET penodol er mwyn ymgysylltu'n uniongyrchol â phlant drwy glybiau gwaith, mentoriaid ieuentid a chynnig cyrsiau hyfforddiant er mwyn

**Rhaglenni ysgolion cynradd Cymunedau yn Gyntaf** – Yn ogystal â gweithio i dargedu pobl NEET, mae Cymunedau yn Gyntaf wedi parhau i roi cymorth i blant sy'n trosglwyddo o'r Ysgol Gynradd i'r Ysgol Uwchradd, ac mae'r rhaglen wedi rhagori ar bob un o'i thargedau. Gwnaeth 68 o bobl ifanc yn yr ardaloedd cymwys wella eu perfformiad academaidd o gymharu â ffigur y llynedd, 44. Mae 75 o bobl ifanc hefyd wedi cael eu helpu i wella eu presenoldeb dros y flwyddyn ddiwethaf.

**Inspire2Achieve** – Mae Inspire2Achieve yn broject rhanbarthol drwy gronfa Gymdeithasol Ewrop sy'n canolbwyntio ar sicrhau bod pobl ifanc sy'n agored i newid yn cael eu targedu'n briodol i gael cyllid grant er mwyn sicrhau eu bod yn cael cymorth priodol mewn da bryd i wireddu eu potensial. Mae Paneli Ymarferwyr bellach wedi cael eu sefydlu yn y Fro ac mae cynlluniau gweithredu wedi cael eu llunio ar gyfer pob ysgol. Mae lleoliadau drwy Gyrfa Cymru hefyd wedi cael eu trefnu er mwyn i ddisgyblion gael profiad.




**Inspire2Work** – Mae Inspire2Work yn broject ar y cyd â Thai Llamau sy'n gweithio gyda phobl ifanc ddi-waith rhwng 16 a 25 oed. Nod y project fydd mentora pobl ifanc a'u helpu i fanteisio ar gyfleoedd addysg a chyflogaeth. Dechreuodd y rhaglen yng nghanol mis Ebrill 2017, a chynhaliwyd ymarfer adnabod cynnar i rannu enwau disgyblion blwyddyn 11 sy'n gadael ac sy'n cael eu hystyried yn risg uchel er mwyn paratoi cymorth ar eu cyfer.



**Cydweithio i wella rhagolygon cyflogaeth** – Mae dull mwy cydgysylltiedig o ymgysylltu â chyflogwr wedi cael ei sefydlu; mae project sydd wedi cael cyllid ledled Caerdydd a'r Fro wedi sefydlu cysylltiadau â chyflogwyr ac mae wedi cynorthwyo pobl i mewn i gyflogaeth. Mae'r BGC hefyd wedi cael cyflwyniadau ar yr ardoll brentisiaethau a chyflogaeth ieuenctid; mae swyddog project profiad gwaith a chyflogaeth ieuenctid wedi cael eu penodi gan Gyngor Bro Morgannwg. Mae gwaith wedi'i wneud i sicrhau bod cyfleoedd hyfforddiant a phrofiad gwaith yn cael eu darparu drwy brojectau cyfalaf ac adfywio mawr megis: Projectau Tai a datblygiad Five Mile Lane.

*Dangosydd Craidd: y ganran o bobl weithgar yn economaidd sydd allan o waith*



*Mae cyflogaeth yn atal tldi i lefelau uchel, yn enwedig yn achos tldi cyson (ac mae hefyd yn cyfrannu'n uniongyrchol at les personol da). O'r sawl sy'n weithgar yn economaidd yn y Fro, mae 74% mewn cyflogaeth, sydd fymryn yn uwch na'r ffigur ar gyfartaledd ledled Cymru a'r DU. Mae tua 4% yn ddi-waith, sy'n is na'r ffigur ar gyfartaledd ledled Cymru a ledled y DU. Mae'r sawl sy'n economaidd anweithgar yn edrych ar ôl aelodau o'r teulu/gartref neu'n fyfyrwyr yn cynrychioli'r ganran uchaf (24.9%). Dim ond 13.7% oedd yn economaidd anweithgar yn sgil ymddeol o gymharu'r â'r ffigur ar gyfartaledd ledled Cymru, 15%. Roedd 21% yn economaidd anweithgar oherwydd salwch hirdymor o gymharu â'r ffigur ar gyfartaledd ledled Cymru o 28.5%. O'r sawl sy'n economaidd anweithgar yn y Fro, mae 28.2% am gael swydd ac mae hynny'n ychydig yn uwch na ffigur Cymru a'r DU ar gyfartaledd, felly mae'r sawl hyn sy'n awyddus i weithio'n cynrychioli cyfle.*

## Y Camau Nesaf

Er y bu llawer o weithgarwch i drechu tlodi, mae'r Asesiad Lles wedi amlygu bod anghydraddoldeb ledled y Fro yn broblem allweddol. Mae hyn yn faes lle y gall partneriaid gydweithio i wneud gwahaniaeth sylweddol i fywydau a chyfleoedd cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol.

Mae llawer o'r gwaith yn cael ei wneud mewn partneriaeth ond mae'r angen i integreiddio gwasanaethau a phrojectau'n fwy wedi'i nodi. Cydnabyddir hefyd bod angen gwneud mwy i ymgysylltu â'n cymunedau lleol er mwyn eu galluogi i lywio gwasanaethau ac er mwyn cynyddu'r nifer yn y gymuned sy'n cymryd rhan. Mae gwaith eisoes yn mynd rhagddo i gynnwys cymunedau, er enghraifft drwy Ddechrau'n Deg a Chymunedau yn Gyntaf, ond mae angen gwneud rhagor. Yn yr un modd, mae llawer o waith ataliol yn digwydd eisoes ond mae angen gwneud rhagor er mwyn sicrhau bod partneriaid a gwasanaethau yn cydweithio, a bod y berthynas rhwng nifer o'r problemau y mae'r sawl sy'n byw yn ein cymunedau mwyaf difreintiedig yn eu hwynebu yn cael ei deall.

Drwy'r gwaith sy'n cael ei wneud eisoes, mae'r BGC yn cyfrannu at y nodau cenedlaethol, er enghraifft Cymru Ffyniannus, Cymunedau Cydlynol, Cymru Iach a Chymru Fwy Cyfartal. Yr her i'r BGC wrth symud ymlaen yw sicrhau ein bod yn cyfrannu **cymaint â phosibl** at **bob un** o'r nodau llesiant a'n bod yn gwella llesiant ein cymunedau lleol.



## 6. Gweithio mewn partneriaeth i gyflawni ein deilliannau blaenoriaeth

### Cyflwyniad

Yn ogystal â gwaith i drechu tlodi yn y Fro, mae'r BGC wedi parhau i ymgymryd â gwaith i gyflawni'r Deg Deilliant Blaenoriaeth yn Strategaeth Gymunedol 2011-21. Mae manylion amdanyn nhw ar dudalen 6 o'r adroddiad hwn. Mae partneriaid wedi ymgymryd ag amrywiaeth o waith tuag at gyflawni'r deilliannau. Mae'r adran hon yn amlinellu rhai enghreifftiau nodedig yn 2016/17 a gwybodaeth am rai o'n dangosyddion craidd. Mae manylion am bob un o'n dangosyddion craidd yn Atodiad 1. Byddwn yn adeiladu ar y cyflawniadau hyn wrth i ni ddatblygu ein Cynllun Lles ond byddwn hefyd yn cydnabod pan fo angen newid y ffordd rydym yn gweithio ac ymgorffori'r Pum Ffordd o Weithio ym mhob un o'n gweithgareddau.

### Cynnydd

**Yr Asesiad Lles** – Mae gwaith helaeth wedi cael ei wneud yn unol â'n dyletswyddau yn ôl Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol. Mae'r Ddeddf yn gosod cyfrifoldeb ar y BGC i gyhoeddi Asesiad Lles a Chynllun Lles ar ôl hynny. Cafodd yr Asesiad Lles ei gyhoeddi ym mis Ebrill 2017 ac yn rhan ohono y mae casgliad o ddogfennau sy'n peth wmbreth o ddata ar les economaidd, amgylcheddol, cymdeithasol a diwylliannol ym Mro Morgannwg. Mae modd gweld yr Asesiad ar y tudalennau Ein Bro. Roedd yr Asesiad yn gyfle gwirioneddol i'n helpu i ddysgu mwy am ein cymunedau a'r bobl sy'n eu llywio. Ar sail y dystiolaeth a gafodd ei chyflwyno yn yr Asesiad Lles, nodom fod rhaid i ni weithio i wneud y canlynol er mwyn sicrhau lles ein cenedlaethau yn y dyfodol:


- Galluogi pobl i gymryd rhan yn eu cymunedau a llywio gwasanaethau lleol.
- Trechu tlodi a lleihau anghydraddoldeb sy'n gysylltiedig ag amddifadedd.
- Rhoi'r dechrau gorau mewn bywyd i blant.
- Diogelu, gwella a gwerthfawrogi'n hamgylchedd.

**Amser Siarad Lles** – Cafodd gweithgareddau ymgysylltu helaeth eu cynnal yn rhan o Asesiad Lles y BGC. Gweithio mewn partneriaeth â BGC Caaerdydd a'r Bartneriaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol, a defnyddio'r brand "Let's talk well-being", datblygom arolwg lles, defnyddiom gardiau post ymgysylltu, a buom yn bresennol mewn digwyddiadau ledled Bro Morgannwg er mwyn datblygu darlun mwy cyflawn a dealltwriaeth well o'r agweddau pwysicaf ar fywyd yn y Fro sy'n cyfrannu at les unigolion a lles pawb. O ystyried pob dull a ddefnyddiwyd, cysylltom â chyfanswm o 1,000 o drigolion. Mae modd cael rhagor o fanylion ar yr ymgyrch ymgysylltu hon yn [Adroddiad Ymgysylltu](#) Amser Siarad.



**Mapio Asedau Cymuned** – Mae rhagor o gymunedau’n cael eu mapio ledled y Fro. Mae gwaith mapio wedi digwydd drwy grwpiau cymunedol yn Sain Tathan, Gwenfô, y Rhws ac Ystradowen, ac mae grwpiau yn y Bont Faen, y Barri a Llandochoau hefyd wedi dangos diddordeb. Mae’r broses o fapio’n ffordd o ddod â chymuned at ei gilydd i ganolbwyntio ar yr agweddau da ar ardal, gan gydnabod bod gan bawb rywbeth i’w cynnig a chan ddod o hyd i ddatrysiadau i broblemau sy’n codi. Mae canllaw syml ac ymarferol wedi cael ei ddatblygu a’i hyrwyddo’n eang ac mae modd cael copi caled neu ei weld [ar-lein](#).

### *Dangosydd Craidd: Gwerth Ariannol Gwaith Gwirfoddoli yn y Fro*




*Mae’r gwerth ariannol o waith gwirfoddoli’n un o ddangosyddion craidd y BGC yn y Fro. Mae’r dangosydd hwn yn dangos y cyfraniad sylweddol y mae gwirfoddolwyr yn ei wneud at eu cymunedau. Mae hefyd yn bwysig cofio mai’r oriau o wirfoddoli a wnaethpwyd yn rhan o systemau mwy ffurfiol yn unig a gynrychiolir gan y ffigur hon. Nid oes cynrychiolaeth o’r gwaith gwirfoddoli anffurfiol helaeth sy’n digwydd yn y Fro, rhywbeth a nodwyd yn yr Asesiad Lles. Nododd yr Asesiad Lles nad oes modd tanamcangyfrif yr effeithiau cadarnhaol o wirfoddoli ar les unigolyn o ran gwella lles meddyliol a rhoi ymdeimlad o bwrpas. At hynny, mae gwirfoddoli’n fodd i ddysgu amrywiaeth eang o sgiliau ac mae hynny’n gwella rhagolygon gyrfa. Mae’r BGC felly’n cydnabod bod ehangu ar waith gwirfoddoli yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig o’r Barri, a hyrwyddo gwirfoddoli tuag at waith mewn ardaloedd lle y mae cyfran uwch o’r boblogaeth yn ddi-waith, yn gyfle. Mae’r BGC hefyd wedi gofyn am syniadau o ran sut y gallwn ni, gan ein bod yn gyflogwyr, helpu ein staff i ymwneud yn fwy â’u cymunedau fel gwirfoddolwyr. Mae wedi’i nodi y dylid cynnwys gwella cyfranogiad yn y gymuned yn y Cynllun Lles.*

**Adfywio'r Fro** – Yn rhan o'r rhaglen lleoedd Gweladwy a Llewyrchus, mae gwaith wedi cael ei gwblhau ar 100% o eiddo preswyl ar Heol Holltwn ac ar 100% o'r cynllun masnachol. Drwy hynny mae nifer o siopau fu'n wag bellach yn eiddo preswyl. Mae'r gwaith wedi cyfrannu at wella pryd a gwedd eiddo yn yr ardal a hyder yn ardal Heol Holltwn Uchaf. Disgwylir y bydd Llywodraeth Cymru yn lansio Cronfa Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid 2 cyn bo hir ac mae paratodau ar y gweill i adnabod projectau posibl.



*Mae hyn yn adlewyrchu ein hymrwymadau mewn perthynas â mwyafu potensial ein safle yn y rhanbarth i ddenu ymwelwyr a sicrhau bod adfywio'r Fro yn parhau.*

*Dangosydd Craidd: Cyfanswm nifer yr ymwelwyr â Bro Morgannwg at ddibenion twristiaeth (yn ôl arolwg STEAM)*




*Yn ogystal â thrigolion a busnesau, mae lleoedd deniadol yn denu twristiaid ac maen nhw'n helpu i wella lles economaidd ardal. Drwy ddarparu atyniadau twristiaid ac atyniadau eraill, bydd lles diwylliannol ardal hefyd yn gwella. Mae gan y Fro ystod eang o asedau naturiol y mae trigolion ac ymwelwyr yn eu gwerthfawrogi'n fawr, a gellir ystyried ein hamgylchedd naturiol yn un o'r atyniadau mwyaf i dwristiaid fel yn achos yr arfordir treftadaeth a thraethau baner las. Mae'r atyniadau hyn hefyd yn llesol i iechyd mewn nifer o ffyrdd sy'n dangos cyfraniad yr amgylchedd tuag at les ein trigolion ac maen nhw'n rhan annatod o ddiwylliant y Fro. Mae'r Fro hefyd yn agos i Gaerdydd ac mae hynny'n nodwedd unigryw o ddiwylliant y Fro. Mae'n bwysig nid yn unig o ran denu twristiaid, ond hefyd o ran cynnig cyfleoedd diwylliannol i drigolion ac ymwelwyr.*

*Mae cyfanswm nifer yr ymwelwyr â'r Fro at ddibenion twristiaeth yn parhau i gynyddu a bu cynnydd o 18.5% yn nifer yr ymwelwyr ers addeg llunio adroddiad twristiaeth STEAM am y tro cyntaf yn 2004. At hynny, bu cynnydd o 64.8% yn effaith economaidd twristiaeth yn y Fro dros y cyfnod 2004-2015 a chynnydd o 10.9% yng nghyfanswm y swyddi y mae'r diwydiant twristiaeth yn eu cynnal.*

**Y Fargen Ddinesig – Yn rhan o Fargen Ddinesig** Prifddinas-ranbarth Caerdydd, mae trafodaethau'n parhau ynghylch gwelliannau posibl ledled De Ddwyrain Cymru. Yn rhan o'r Fargen Ddinesig bydd buddsoddiad o £1.229 biliwn yn seilwaith Prifddinas-Ranbarth Caerdydd, ac mae cyflawni Metro De Ddwyrain Cymru yn flaenoriaeth allweddol. Bydd gwaith i ddatblygu gweithlu medrus ac i leihau diweithdra'n un o brif nodau'r fargen. Caiff Bwrdd Sgiliau a Chyflogaeth Prifddinas-Ranbarth Caerdydd ei sefydlu er mwyn sicrhau bod y ddarpariaeth o sgiliau a chyflogaeth yn ymateb i anghenion busnesau a chymunedau lleol.

*Mae hyn yn adlewyrchu ein hymrwymadau ynglŷn â sicrhau bod adfywio'r Fro yn parhau, gan fwyafu'r potensial ar gyfer ei safle yn y rhanbarth a pharchu'r amgylchedd lleol.*

**Dangosydd Craidd: y ganran o ddisgyblion 15 oed ar 31 Awst mewn ysgolion a gynhaliwyd gan yr awdurdod lleol a gyflawnodd drothwy lefel 2 gan gynnwys TGAU gradd A\*-C mewn Saesneg neu Gymraeg Iaith Gyntaf a Mathemateg**



*Er mwyn sicrhau bod ein poblogaeth yn cael y cyfleoedd gorau, mae addysg dda'n hollbwysig. Addysg yw'r sail allweddol i lwyddiant economaidd nid yn unig i unigolion ond i'r ardal. Nodwyd mai "cyrhaeddiad addysgol sy'n cael yr effaith fwyaf ar y tebygolrwydd o fod mewn tlodi ac yn oedolion sy'n ddifrifol ddifreintiedig...os bydd popeth arall yn gyfartal, yn y DU, bydd y sawl sy'n cyflawni cyrhaeddiad addysgiadol is bron bum gwaith yn fwy tebygol o fod mewn tlodi nawr, ac yn 11 gwaith yn fwy tebygol o fod yn ddifrifol ddifreintiedig yn faterol, o'u cymharu â'r sawl sy'n cyflawni cyrhaeddiad addysgol uchel."*

*Mae cyrhaeddiad addysgol ym Mro Morgannwg wedi bod yn gyson yn uwch na ffigur Cymru ar gyfartaledd yng nghyfnodau allweddol 2, 3 a 4. Er hynny, mae diffyg cydraddoldeb o fewn Bro Morgannwg, ac mae lefelau cyrhaeddiad ar eu hisaf yn yr ardaloedd mwyaf difreintiedig o'r Fro. Mae'r bwlch cyflawni'n tystio i hynny yn yr un modd, o gymharu disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim a'r sawl nad ydynt yn gymwys. Mae perfformiad disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim wedi gwella ers 2012, ond nid yw wedi cystadlu â chynnydd eu cyfoedion ym mhob achos. Mae'r bwlch cyflawni yng Nghyfnod Allweddol 4 ychydig yn llai ar gyfer blwyddyn academiaidd 2015-16, ac mae lleihau hynny'n fwy'n ffocws allweddol ar gyfer gwelliant ac yn flaenoriaeth i'r Cyngor yn y tymor hir.*

*Mae hyn yn adlewyrchu ein hymrwymiad i blant a phobl ifanc a phwysigrwydd dysgu a sgiliau.*


**Trafnidiaeth Gymunedol** – cafodd y cynllun blaenoriaeth i fysiau rhwng Croes Cwrlwys a Chroes Weycock a beicio/cerdded ei gwblhau'n llwyddiannus eleni ar ôl dechrau ym mis Mawrth 2017. Diolch i'r cynllun mae 188 o fetrau o lwybrau beicio newydd a lôn fysiau. Mae hynny wedi arbed amser sylweddol i ddefnyddwyr bysiau ac mae wedi cynyddu'r nifer sy'n beicio.

*Mae hyn yn adlewyrchu ein hymrwymiad parthed sicrhau bod adfywio'r Fro yn parhau a pharchu'r amgylchedd lleol.*

**Hyrwyddo cynlluniau a phrojectau i helpu i leihau costau ynni a thlodi tanwydd** – Mae Cyngor Dinasyddion Caerdydd a'r Fro wedi bod yn cynnal sesiynau ar Fargeinion Ynni Gorau un wrth un yn y Fro er mwyn annog unigolion i fynd i'r afael â phroblemau ynni, gan gynnwys dewis opsiynau mwy cost-effeithiol o ran talu.



#### *Dangosydd Craidd: Lleihau Ein Gwastraff*



*Yn yr Asesiad Lles, cydnabuwyd bod yr amgylchedd yn un o asedau mwyaf y Fro a'i fod yn rhan annatod o ddiwylliant y Fro. Drwy gydol yr ymgyrch ymgysylltu Amser Siarad, roedd pwysigrwydd yr amgylchedd lleol i les ein trigolion yn glir. Mae'r amgylchedd yn sylfaenol i bob agwedd ar fywyd ac mae'n hanfodol i les ein trigolion a'r ardal. Bydd diogelu, gwella a gwerthfawrogi'n hamgylchedd naturiol yn un o Amcanion Lles y BGC.*

*Parthed y dangosydd hwn, mae'r Fro wedi parhau i ragori ar y targed ailgylchu statudol presennol o 58% ac mae wedi caffael datrysiadau ar gyfer y driniaeth o wastraff sydd wedi'i rannu a gwastraff ailgylchu, ac mae hynny wedi bod yn rhan o gyflawni yn y maes hwn. At hynny, yn y blynyddoedd diwethaf, mae'r Cyngor wedi elwa ar ludw gwaelod ffwrnais o ffatri Viridor (Prosiect Gwyrdd). Mae'r cyfleuster hwn wedi ychwanegu at gyflawniad ailgylchu'r Cyngor o'r gweddillion o losgi ein gwastraff. Sydd eu hangen i adfer ynni.*

*Mae'r gweithgarwch hwn yn helpu gyflawni ein hymrwymiaidau i barchu'r amgylchedd ac mae'n enghraifft dda o weithio'n effeithiol maen partneriaeth ar draws y rhanbarth.*

**Cael y Fro Ar-lein** - Mae Partneriaeth Cael y Fro Ar-lein, sy'n hyrwyddo cynhwysiant



digidol i grwpiau sy'n cael eu targedu, bellach yn sefydledig ac mae mwy na 36 o sefydliadau'n rhan ohoni gan gynnwys; y ganolfan Byd Gwaith/yr Adran Gwaith a Phensiynau, Cartrefi'r Fro, Tai Newydd, Anabledd Cymru, Fforwm Strategaeth 50+ y Fro, Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Ddall, Dysgu Oedolion Cymru a Chymunedau yn Gyntaf y Barri. Nododd y grŵp nad oedd gofalwyr

yn cael cymorth digidol. O ganlyniad i hynny, trefnwyd dwy sesiwn yn benodol ar gyfer gofalwyr a dwy sesiwn ychwanegol wedi hynny oherwydd y bu cymaint o alw. Mae 63 o Gyfranogwyr wedi dod i sesiynau galw heibio digidol ledled y Fro rhwng 1 Ionawr 2016 a 31 Mawrth 2017. O 1 Ebrill 2016 – 31 Mawrth 2017, mae sesiynau yn y Barri wedi rhoi cymorth i 166 o gyfranogwyr.



*Mae'r gweithgarwch hwn yn helpu i gyflawni ein hymrwymiaidau i sicrhau bod pobl o bo oedran yn gallu cael mynediad at gyfleoedd dysgu wedi'u cydlynu.*





**Datblygu Strategaeth Demensia –** Mae Strategaeth Ddemensia ar gyfer Caerdydd a'r Fro wedi'i drafftio a bydd ymgynghoriad arno yn ystod haf 2017. Nod y strategaeth yw gwella trefniadau o ran cydlynu

gwasanaethau, ymgysylltu â phobl leol ar beth sy'n gweithio orau iddyn nhw a sicrhau bod pobl sydd â demensia wrth galon y strategaeth. Yn sgil galw o du defnyddwyr gwasanaeth, gofaluwr a darparuwr gwasanaeth, mae cyfeiriadur gwybodaeth a chyngor yn cael ei ddiweddarau a'i ailgyhoeddi ar gyfer pobl hŷn sydd wedi cael diagnosis o ddemensia neu anhwylderau meddyliol eraill. At hynny, mae'r gwaith o adeiladu rhwydwaith cryf o Bencampwyr a Ffrindiau Demensia yn parhau'n ddi-oed.

**Lleihau achosion o gwmpo ledled y Fro –** Mae gwaith sylweddol wedi cael ei wneud i leihau nifer yr achosion o gwmpo, ac yn rhan o hynny bu gwaith gyda sefydliad Gofal a Thrwsio i adnabod peryglon llithro a baglu, gwaith i hyrwyddo dosbarthiadau nerth a chydbwysedd, cyngor gan gydlynwyr lles mewn meddygfeydd a gwaith i godi ymwybyddiaeth mewn fferyllfeydd lleol. Mae Tri Thîm Adnoddau Cymunedol yng Nghaerdydd a'r Fro wedi darparu rhaglenni nerth a chydbwysedd yn benodol ar gyfer cleifion unigol sydd wedi dioddef cwmp, neu sydd mewn perygl o gwmpo. Yn y Fro, mae 119 o gleifion wedi dechrau'r rhaglen ers mis Hydref 2016, mae 8 wedi cwblhau'r 6 mis llawn ac mae 69 ar y rhaglen o hyd. Mae'r rhaglen wedi dangos lleihad yn nifer yr achosion o gwmpo i'r sawl sydd wedi bod ar y rhaglen.



*Mae'r gweithgareddau hyn yn helpu i gyflawni ein hymrwymiadau er mwyn sicrhau y gwerthfawrogi pobl hŷn ac y cânt eu grymuso i aros yn annibynnol, yn iach ac yn actif.*

**Gweithio mewn partneriaeth i leihau trais yn erbyn y person** – Mae'r Tîm Diogelwch Cymunedol yn rhoi camau ar waith i leihau trais yn erbyn y person a'r pum is-gategori sy'n cyfrannu at drais. Gan weithio mewn partneriaeth gyda Heddlu De Cymru a thîm Trwyddedu Bro Morgannwg, mae'r rheolwr Diogelwch Cymunedau wedi bod yn bresennol mewn cyfarfodydd cynllun gwyllo tafarndai er mwyn rhannu gwybodaeth, deall y problemau o ran economi'r hwyrnos a rhoi cynlluniau ar waith i atal cyfleoedd am drais cymaint â phosibl. Mae menter anadlienyddion y Fro yn un o'r projectau llwyddiannus sydd wedi'u cynnal drwy'r gwaith hwn.




**Cynhadledd asesu risg amlasiantaeth** – Ymgwymerwyd â rhagor o waith partneriaeth i gynnal a chydlynu cynhadledd asesu risg amlasiantaeth. Mae'r cyfarfod amlasiantaeth hwn yn adolygu cynlluniau ar gyfer dioddefwyr camdriniaeth domestig risg uchel ac mae'n eu rhoi ar waith. Drwy sefydlu a chydlynu'r gynhadledd, mae'r Tîm Diogelwch Cymunedol wedi gallu crynhoi ystadegau ar gyfer anghenion cymhleth, er enghraifft teuluoedd sy'n dioddef oherwydd cam-drin domestig, camddefnydd sylweddau a phroblemau iechyd meddwl. Mae'r gynhadledd wedi bod yn gyfle dorri'r arfer o reoli problemau ar wahân; mae project ar y gweill ar hyn o bryd i fynd i'r afael â sut y mae'r sawl sydd ag anghenion cymhleth yn gallu cael cymorth o fewn partneriaeth.

**Mynd i'r afael â Throseddau Casineb** – Er ein bod wedi gweld cynnydd yn nifer yr adroddiadau o Droseddau Casineb ym Mro Morgannwg, mae'r nifer dal yn gymharol isel. Mae'r tîm Diogelwch Cymunedol wedi bod yn gweithio i ehangu ymwybyddiaeth o'r prosesau adrodd a'r gwasanaethau cymorth sydd ar gael. Mae'r grŵp cydlynad cymunedau wedi cael ei ailsefydlu o ganlyniad i'r gwaith hwn, sy'n cynnwys aelodau o grwpiau lleiafrifol i sicrhau bod cymaint â phosibl yn cael ei wneud mewn cyfleoedd ymgysylltu.

*Mae'r gweithgareddau hyn yn helpu i gyflawni ein hymrwymiadau i sicrhau bod trigolion ac ymwelwyr yn ddiogel ac yn teimlo'n ddiogel ym Mro Morgannwg.*

### *Dangosydd Craidd: y gyfradd droseddu (pob math) fesul 1000 o'r boblogaeth*



*Er mwyn gwella lles ein trigolion a chyfrannu at y nodau lles cenedlaethol, mae'n bwysig bod ein cymunedau'n ddiogel ac yn gydlynus i bawb. Mae data'n dangos bod y gyfradd gyffredinol o droseddau yn y Fro wedi bod yn is na ffigur Cymru ar gyfartaledd. Drwy gydol ymgyrch ymgysylltu Amser Siarad, a ddefnyddiwyd i gasglu tystiolaeth yn gefn i'r asesiad, nododd llawer o drigolion fod y cyfraddau troseddu isel yn agwedd gadarnhaol ar fyw yn yr ardal. Er hynny, fel yn achos ystod o ddangosyddion eraill mae diffyg cydraddoldeb yn y Fro ac mae cyfraddau troseddu uwch yng nghyffiniau'r Barri o'u cymharu â mannau eraill o'r Fro.*

*Ers i'r asesiad gael ei gyhoeddi gyntaf, mae data mwy diweddar yn dangos bod cyfraddau troseddu blwyddyn ariannol 2016-17 wedi cynyddu ym Mro Morgannwg. Mae hynny'n dilyn tueddiad cenedlaethol. O ystyried cyfraddau troseddu yn ôl math, bu gostyngiad mewn troseddau cyffuriau yn y Fro yn 2016/17. Serch hynny, bu cynnydd bach mewn troseddau difrod a llosgi bwriadol, ac mewn troseddau trais yn erbyn y person. Gwnaeth y gyfradd o droseddau yn erbyn y drefn gyhoeddus bron â dyblu.*

## Y Camau Nesaf


Mae'r cyflawniadau uchod yn adlewyrchu rhai o'r ffyrdd y mae'r BGC yn cyfrannu at y nodau Lles cenedlaethol. Maen nhw hefyd yn dangos bod ein cyfraniad at rai o'r nodau'n wannach nag eraill a thrwy'r Cynllun Lles newydd y bydd angen i ni ystyried yn barhaus ffyrdd o gyfrannu cymaint â phosibl at bob un o'r nodau. Mae hon yn her i'r bwrdd newydd cyfan. At hynny, rhaid i ni sicrhau ein bod yn ymgorffori'r Pum Ffordd o Weithio ym mhob un o'n gweithgareddau. Mae'r uchod yn dangos bod ystod o weithgarwch partneriaeth ledled y Fro a pherthnasoedd gweithio da; er hynny, mae angen integreiddio'n fwy o lawer ac edrych ymmhell bellach at y dyfodol. Mae'r cyflawniadau uchod yn fan cychwyn i ni a gallwn ni symud ymlaen i gyflawni ein Hamcanion Lles sy'n canolbwyntio ar yr amgylchedd, trechu tlodi, gwella ymgysylltiad a rhoi dechrau da i blant mewn bywyd.

## 7. Ein Blaenoriaethau a'n Heriau

Datblygu a chyhoeddi ein Cynllun Lles fydd y brif her i'r BGC dros y misoedd nesaf. Bydd hyn yn broses o adeiladu ar y sail gadarn o dystiolaeth i'r Asesiad Lles er mwyn adnabod camau gweithredu ar y cyd y mae modd eu cyflawni a fydd yn cyfrannu at Nodau Llesiant Cenedlaethol Cymru ac a fydd yn gwella lles cymunedau ym Mro Morgannwg cymaint â phosibl.

Mae'r BGC eisoes wedi ymgymryd ag ystod o weithgarwch ymgysylltu ar gyfer y pedwar amcan. Mae offeryn hunan asesu wedi'i ddatblygu ac mae gweithdai wedi'u cynnal gan s wyddogion arbenigol o bob rhan o'r BGC er mwyn adnabod y meysydd lle y gall ychwanegu gwerth a chael yr effaith fwyaf.

Mae ein hamcanion lles yn adlewyrchu llawer o'r gwaith sydd eisoes yn mynd rhagddo gan y BGC i gyflawni'r deilliannau blaenoriaethau cyffredinol ac i drechu tlogi yn unol â Chynllun Cyflawni 2014-18. Bydd y Cynllun Lles newydd yn adeiladu ar y gwaith sydd wedi cael ei wneud hyd yn hyn a bydd yn ei gwneud yn bosibl canolbwyntio'n strategol ar feysydd lle y gall y BGC wneud gwahaniaeth drwy gamau ar y cyd. Bydd y Cynllun newydd hefyd yn fodd i gydnabod bod llawer o waith eisoes yn mynd rhagddo i gyflawni deilliannau gwell drwy weithio mewn partneriaeth. Bydd y BGC yn sicrhau bod yr Amcanion Lles yn cael eu hadlewyrchu yng ngwaith y partneriaethau eraill, a'u bod yn adlewyrchu eu gwaith hwythau e.e. Bro Ddiogelach a Phartneriaeth Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig er mwyn cyflawni gweledigaeth glir dros y Fro.



Yr her nesaf fydd ymgymryd â rhagor o waith ymgysylltu ac ymgynghori â'r cyhoedd a rhanddeiliaid drwy'r hydref. Drwy ein sgysiau, byddwn yn profi p'un a yw'n Cynllun Lles yn nodi'r modd gorau i fynd i'r afael â'r problemau a'r asedau a nodwyd yn ein hasesiad lles, ac i adeiladu arny'n nhw.

Bydd y BGC yn cyhoeddi ei gynllun ym mis Mai 2018 ac yn y cynllun caiff y gwaith mewn partneriaeth sydd i ddod ei amlinellu tuag at wella lles cenedlaethau'r presennol a'r dyfodol ym Mro Morgannwg.

## 8. Rhagor o Wybodaeth

Dros y misoedd nesaf, bydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus yn gweithio ar y gwaith o ddatblygu ein Cynllun Lles. I gael rhagor o dystiolaeth yn gefn i'r cynllun, byddwn yn ymgymryd ag ystod o weithgareddau ymgysylltu drwy'r hydref. Ar ôl ymgynghoriad, caiff y Cynllun Lles ei gyhoeddi ym Mai 2018, a bydd yn nodi Amcanion Lles y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r camau y bydd y Bwrdd yn eu rhoi ar waith i'w cyflawni.

I gael rhagor o wybodaeth am waith Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Bro Morgannwg, ac i adolygu Asesiad Lles y BGC yn fwy manwl, ewch i dudalennau gwe ['Ein Bro'](#).



